# EVANS, SAMUEL JAMES (1870 - 1938), ysgolfeistr, hyrwyddwr addysg, ac awdur

**Enw:** Samuel James Evans
**Dyddiad geni:** 1870
**Dyddiad marw:** 1938
**Priod:** Annie Evans (née Griffiths)
**Rhiant:** Margaret Evans (née Jones)
**Rhiant:** David Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolfeistr, hyrwyddwr addysg, ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gildas Tibbott

Ganwyd 4 Awst 1870 yn Llandysul, Sir Aberteifi, yn ail fab i David Evans, lledrwr, a Margaret Jones. Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg Tysul, Llandysul, a Choleg Aberystwyth, ac enillodd radd B.A. (Llundain) yn 1892 a M.A. (Llundain) yn 1894. Priododd Annie, merch Thomas Griffiths, Aberystwyth. Penodwyd ef (1895) yn brifathro cyntaf ysgol sir y bechgyn, Trallwng, ac yn 1897 yn brifathro cyntaf ysgol sir Llangefni, swydd a ddaliodd hyd nes iddo ymddeol yn 1935. Wedi hynny preswyliai ym Mhorthaethwy ac yno y bu farw 2 Ebrill 1938 a'i gladdu ym mynwent gyfagos Llandysilio. Am 40 mlynedd a mwy bu S. J. Evans yn dra blaenllaw ym mywyd addysgol Cymru. Yr oedd yn Eglwyswr blaenllaw. O 1934 hyd 1937 ef oedd ysgrifennydd pwyllgor geiriau'r llyfr emynau newydd, *Emynau'r Eglwys*, a gyhoeddwyd yn 1941. Yn 1929 fe'i hanrhydeddwyd â'r O.B.E. Dyma'r gweithiau cyhoeddedig a ysgrifennodd neu y bu iddo ran yn eu paratoi: *The Elements of Welsh Grammar* (arg. 1af, 1899; 10 argraffiad); *Welsh and English Exercises adapted for use with the author's Elements of Welsh Grammar* (arg. 1af. 1903; dau arg.); *Welsh Parsing and Analysis*, 1907; *The Latin Element in Welsh*, 1908; *Questions on Evans' Welsh Grammar, etc., with Notes*, 1908; *Studies in Welsh Phonology*, 1909; *Studies in Welsh Grammar and Philology* (d.d., c. 1909); *The Curricula of Secondary Schools*, 1925; golygydd *Drych y Prif Oesoedd* (Guild of Graduates Welsh prose reprints, rhif 2), arg. 1af, 1902; ail arg. Rhan I, 1927, Rhan II, 1932); cyfieithydd *Crynhodeb Byr o Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru ...* (fersiwn Gymraeg o Frank Morgan, *A Short Summary of the Constitution of the Church in Wales*), 1920; awdur erthyglau mewn gwahanol gylchgronau.

## Awdur

**Gildas Tibbott**, (1900 - 1979)

## Ffynonellau


*North Wales Chronicle*, 8 Ebrill 1938

*Yr Haul*, Mai 1938

*Welsh Secondary Schools Review*, haf 1935, haf 1938

adnabyddiaeth bersonol


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734390


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu